Grŵp Gweithredu
Blynyddoedd Cynnar

# Maniffesto ar gyfer babanod a phlant ifanc

## i Etholiad y Senedd yn 2026



Rydyn ni'n galw ar bob plaid wleidyddol i wneud babanod a phlant ifanc yn flaenoriaeth ym mhob elfen o ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu'r tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae pob baban a phlentyn ifanc yng Nghymru yn haeddu'r **dechrau gorau mewn bywyd**. Cael bod yn hapus, yn iach, a derbyn y gofal a'r sylw mae arnyn nhw eu hangen i ddatblygu a thyfu.



*"Dyma fi. Bywyd newydd, yn llawn potensial. Fi fy hun ydw i, ond rwy'n dibynnu ar y bobl o'm cwmpas i ofalu amdana i, i'm hamddiffyn, ac i'm helpu i wneud synnwyr o'r byd mawr, cymhleth yma. Ar hyn o bryd, mae fy ymennydd yn datblygu'n gynt nag y bydd ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Bydd y dyddiau cynnar hyn yn dylanwadu ar weddill fy mywyd. Dyna pam mae rhaid cydnabod fy anghenion, eu deall, ac ymateb iddyn nhw, er mwyn i mi fedru tyfu, dysgu, a ffynnu."*

**Mae'r 1,000 diwrnod cyntaf yn cyfeirio at fywyd baban o foment y beichiogi hyd at 2 flwydd oed.** Mae'n gyfnod allweddol mewn bywyd, pryd y caiff blociau adeiladu datblygiad corfforol ac emosiynol eu rhoi yn eu lle. Mae hefyd yn cynnig y potensial mwyaf o ran effaith ar wella canlyniadau a lleihau anghydraddoldeb.

### Mae Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar yn galw ar bob plaid wleidyddol yng Nghymru i wneud y canlynol:

**Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cymhwyso o'u genedigaeth**

**Buddsoddi mewn cymorth cynnar i deuluoedd**

**Gweithio i ddileu tlodi babanod a phlant ifanc**

**Gwneud babanod a phlant ifanc yn ganolog wrth lunio polisi**

## Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cymhwyso o'u genedigaeth

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llawn yng nghyfraith Cymru, a dealltwriaeth glir o beth mae hynny'n ei olygu i fabanod a phlant ifanc a sut mae hawliau'n berthnasol iddyn nhw.
- Ymrwymo i gynyddu ymwybyddiaeth o sut mae hawliau plant yn berthnasol o'u genedigaeth, trwy ariannu hyfforddiant ar gyfer llunwyr polisi a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd.
- Defnyddio'r *Adduned i fabanod yng Nghymru* i sicrhau bod anghenion a llais babanod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi, gwneud penderfyniadau, ac yn holl waith y Senedd.

## Buddsoddi mewn cymorth cynnar i deuluoedd

- Ymrwymo i fuddsoddi mewn hybiau cymunedol lleol i bob teulu, fel eu bod yn cael mynediad i ystod o wasanaethau cydlynus, o adeg y beichiogi, er mwyn cefnogi datblygiad iach babanod a phlant ifanc.
- Buddsoddiad hirdymor sylweddol, estynedig yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan sicrhau ei fod yn cydbwyso anghenion babanod, plant ifanc a'u rhieni.
- Datblygu gwasanaethau arbenigol ar gyfer y berthynas rhwng rhieni a babanod ledled Cymru i gefnogi'r teuluoedd sy'n wynebu'r risg uchaf o brofi anawsterau difrifol neu gymhleth mewn perthnasoedd cynnar.

## Gwneud babanod a phlant ifanc yn ganolog wrth lunio polisi

- Sicrhau y penodir ysgrifennydd Cabinet ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc, a fydd yn rhoi arweiniad cadarn ac yn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd ar draws y llywodraeth.
- Cadw pwyllgor craffu trawsbleidiol yn y Senedd ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc, gyda ffocws penodol ar wella canlyniadau yn y 1000 diwrnod cyntaf.
- Bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'babanod, plant a phobl ifanc' fel mater o drefn wrth lunio polisi ac ar draws gwaith y Senedd.

## Gweithio i ddileu tlodi babanod a phlant ifanc

- Sicrhau bod Fframwaith Monitro'r Strategaeth Tlodi Plant yn adlewyrchu profiad bywyd a llais babanod a phlant ifanc iawn.
- Sicrhau bod y teuluoedd mwyaf bregus sy'n cael trafferth sicrhau'r hanfodion yn derbyn bwndel baban.
- Sicrhau bod teuluoedd sydd â babanod a phlant ifanc yn derbyn incwm digonol i fyw bywyd llawn a digonol, ac yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael iddyn nhw.



***Addune*d:** *Bydda i'n gweithio dros bob baban a phlentyn ifanc ac yn sicrhau bod eu hanghenion a'u llais yn cael eu hystyried yn yr holl benderfyniadau sy'n cael eu gwneud drostyn nhw.*

**Grŵp Gweithredu Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r Grŵp Gweithredu Blynyddoedd Cynnar yn dod â sefydliadau trydydd sector at ei gilydd sydd â ffocws ar y Blynyddoedd Cynnar, er mwyn sefydlu llais ar y cyd i ysgogi ac ysbrydoli newid cadarnhaol ar gyfer y plant ieuengaf. Caiff y grŵp ei gydlynu gan Plant yng Nghymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o BookTrust Cymru, Plant yng Nghymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Home-Start Cymru, Mudiad Meithrin, Achub y Plant, NSPCC Cymru, Chwarae Cymru, Sefydliad Rhiant-Infant ac NYAS.

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Chwarae Cymru Play Wales

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

BookTrust Cymru Ysgogi plant i ddarllen Getting children reading

NSPCC CYMRU | WALES

Save the Children Achub y Plant

nyas gwasanaeth eiriolaeth ieuenctid cenedlaethol national youth advocacy service

mudiad meithrin arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists

HOME START Cymru

Parent-Infant FOUNDATION

